Nina Davies
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Powys

Dyddiad: 24/06/2026

Annwyl Nina Davies,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Oedolion Cyngor Sir Powys**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 27 a 29 Ebrill 2026. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

**Pobl – llais a rheolaeth**

- Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?
- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff lleisiau gofalwyr eu clywed ac yr ymatebir iddynt?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?
- I ba raddau y mae pobl yn cael gofal a/neu gymorth mewn modd amserol?
- Pa mor effeithiol y caiff rhestrau aros eu rheoli, er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar y bobl a'u gofalwyr?
- Pa mor effeithiol y mae cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn briodol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i amgylchiadau pobl o hyd?

**Llesiant**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

**Partneriaeth**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Mae rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl diffinio meintiau yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae Powys yn sir fawr a gwledig yn bennaf, ac mae ei chymunedau wedi'u gwasgaru dros ardal eang. Mae pellteroedd teithio hir, cysylltiadau trafnidiaeth cyfyngedig ac argaeledd gwasanaethau lleol yn amrywio ar draws y sir, a all gyflwyno heriau o ran darparu gofal cymdeithasol i oedolion yn gyson. Mae darpariaeth ehangach ar gael mewn rhai ardaloedd, ac mae eraill yn dibynnu ar gymorth lleol mwy cyfyngedig. Mae'r amrywiad hwn yn cyfrannu at heriau parhaus o ran cydlynu gwasanaethau ag anghenion pobl, gan roi pwysau ar y gweithlu a'r farchnad gofal leol. O ganlyniad, gall mynediad pobl at gymorth amserol a dewis ystyrlon amrywio yn dibynnu ar ble maent yn byw.

3.2 Cynhaliwyd yr archwiliad sicrwydd hwn ar adeg lle roedd newid sefydliadol sylweddol yn mynd rhagddo yng ngwasanaethau oedolion Powys. Mae ein canfyddiadau’n dangos bod arweinyddiaeth a systemau’n datblygu’n dda. Fodd bynnag, nid yw ymarfer rheng flaen yn cyflawni hyn yn gyson mewn gwaith uniongyrchol gyda phobl eto ac mae'n faes i'w wella o hyd.

3.3 Mae uwch-arweinwyr yn hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth ac wedi sefydlu trefniadau a ddefnyddir yn effeithiol i ymgysylltu â gofalwyr a phobl â phrofiad bywyd, sy'n llywio datblygiad gwasanaethau. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n gyson mewn ymarfer rheng flaen. Er bod enghreifftiau lle mae barn a dewisiadau pobl yn amlwg yn llywio gwaith asesu a chynllunio gofal, ni roddir hyn ar waith yn gyson ar y cyfan ac, mewn rhai achosion, mae tystiolaeth gyfyngedig bod pobl yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

3.4 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ystod amrywiol o wasanaethau ataliol, gan gynnwys galluogi, darpariaeth yn y gymuned a phartneriaethau effeithiol â'r trydydd sector. Lle mae'r rhain ar gael ac yn cael eu deall yn dda, maent yn cefnogi annibyniaeth pobl ac yn helpu i leihau anghenion gofal tymor hwy. Mae amrywiad yn y ddarpariaeth leol, ynghyd â lefelau gwahanol o hyder ac ymwybyddiaeth ymhlith y staff, yn golygu bod dulliau ataliol yn cael eu rhoi ar waith yn anghyson ac nad ydynt wedi'u hymgorffori mewn prosesau gwneud penderfyniadau rheng flaen arferol eto.

3.5 Caiff ymarfer diogelu ei ategu gan dîm diogelu arbenigol medrus a gaiff ei arwain yn effeithiol. Mae prosesau sgrinio a goruchwylio atgyfeiriadau ochr yn ochr â gwaith amlasiantaethol yn y cyd-destun hwn yn effeithiol, ac eir i'r afael â phryderon diogelu fel bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed neu gamdriniaeth. Fodd bynnag, nid yw ymarfer diogelu wedi'i ymgorffori'n gyson ar draws yr holl wasanaethau i oedolion. Gwelsom nifer bach o achosion lle byddai nodi a mynd i'r afael â phryderon diogelu yn gynharach wedi bod o fudd. Byddai gwell dealltwriaeth, hyder a chysondeb o ran ymarfer diogelu ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion ehangach yn cefnogi camau i nodi risg yn gynharach, ymatebion mwy amserol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o oedi neu achosion o adael i bethau lithro i rai pobl.

3.6 Mae ymarfer mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwneud penderfyniadau er Lles Pennaf yn anghyson. Er bod tystiolaeth o arferion da, gan gynnwys prosesau i gofnodi asesiadau galluedd a phenderfyniadau er lles pennaf yn glir, ni chaiff y rhain eu rhoi ar waith yn gyson. Gwelsom fylchau yn y cofnodion a bod egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a phrosesau gwneud penderfyniadau er Lles Pennaf yn cael eu rhoi ar waith yn gyfyngedig, sy'n cyfyngu ar sicrwydd bod hawliau pobl yn cael eu deall yn iawn, eu hystyried yn weithredol a'u diogelu.

3.7 Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar sylfeini strategol cryf. Mae cydgysylltiad amlwg rhwng yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol a'r trydydd sector, wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu cadarn ac uchelgais a rennir. Mae comisiynu yn seiliedig ar gydberthnasau a phrosesau adeiladol ar gyfer ymgysylltu â darparwyr yn gryfderau amlwg. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau strategol cryf hyn yn trosi'n brosesau cydweithio cyson effeithiol o ddydd i ddydd eto, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau ariannu, llwybrau Gofal Iechyd Parhaus y GIG a rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn cyfrannu at brofiadau anghyson i bobl.

3.8 Mae'r ffordd y caiff ymarferwyr a rheolwyr eu goruchwylio a'r buddsoddiad mewn hyfforddiant yn gryfder amlwg. Mae sesiynau goruchwylio rheolaidd, strwythuredig yn golygu y gall y rheolwyr oruchwylio cydymffurfiaeth statudol, risg a llwyth gwaith yn effeithiol, wrth gefnogi ymarfer myfyriol, llesiant ymarferwyr a phrosesau gwneud penderfyniadau diogel ar yr un pryd.

3.9 Yr her allweddol o ran gwella yw sicrhau bod disgwyliadau presennol yn cael eu gweithredu'n gyson mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Nes y caiff hyn ei gyflawni, bydd bwlch yn parhau rhwng y safonau disgwyliedig a phrofiadau pobl.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

**Pobl**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Mae'r arweinwyr yn gefnogol ac yn dosturiol. Dywed yr ymarferwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr gweithredol, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant a hyder yr ymarferwyr a'u hymarfer o ddydd i ddydd. Mae'r uwch-arweinwyr yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer trawsnewid ac yn hyrwyddo ffyrdd o weithio integredig sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarnhaol ar gyfer gwelliant, er bod cysondeb ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn dal i ddatblygu a dylai'r arweinwyr sicrhau bod hyn yn parhau.

4.2 Mae tystiolaeth o ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau lle mae pobl yn cael parhad o ran cyfranogiad a digon o amser gyda'r ymarferwyr. O dan yr amgylchiadau hyn, mae asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth ac adolygiadau yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl a'r hyn sy'n cefnogi canlyniadau llesiant, annibyniaeth a sefydlogrwydd. Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng pobl a'r ymarferwyr yn galluogi llais a chyfranogiad, gan

gefnogi ymgysylltiad parchus a chyfranogiad ystyrlon mewn penderfyniadau am ofal a chymorth.

4.3 Mae Fforwm Byw'n Dda Powys yn darparu dull sefydledig a strwythuredig o gydgynhyrchu ac ymgysylltu â phobl. Mae'r fforwm yn gynhwysol ac yn hygyrch, gan alluogi deialog agored ar faterion allweddol a chefnogi pobl i ddylanwadu ar y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnig llwybr clir i leisiau pobl lywio mentrau datblygu iechyd a gofal cymdeithasol lleol a dylanwadu arnynt. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.4 Mae eiriolaeth yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cyfranogiad pobl a diogelu hawliau, yn enwedig mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth. Defnyddir eiriolaeth yn briodol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau er lles pennaf a phenderfyniadau ynghylch galluedd meddyliol lle mae gan bobl anghenion cyfathrebu neu alluedd meddyliol cyfyngedig i ymgysylltu'n llawn. Yn yr amgylchiadau hyn, mae eiriolaeth yn cefnogi camau i gynrychioli dymuniadau a theimladau pobl ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau cyfreithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

4.5 Mae sesiynau goruchwylio rheolaidd a strwythuredig yn golygu y gall y rheolwyr oruchwylio cyfrifoldebau statudol, risg a llwyth gwaith yn effeithiol, wrth gefnogi ymarfer myfyriol, llesiant ymarferwyr a phrosesau gwneud penderfyniadau diogel ar yr un pryd. Disgrifir goruchwyliaeth yn gyson fel rhywbeth sy'n cael ei ddiogelu a'i werthfawrogi, gan helpu i gynnal barn broffesiynol a chefnogi'r ymarferwyr i reoli cymhlethdod a phwysau. Mae hyn yn creu sylfaen bwysig ar gyfer ymarfer cyson ac ansawdd.

4.6 Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr a atebodd gwestiwn yn arolwg AGC yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr (95%) a'u rheolwyr uniongyrchol (91%). Mae'r ymarferwyr yn disgrifio diwylliant tîm cadarnhaol, cefnogaeth gref gan gymheiriaid a phrosesau rheoli llinell hygyrch yn gyson, sy'n eu helpu i reoli cymhlethdod a chynnal llesiant.

4.7 Mae'r ymarferwyr yn disgrifio mynediad da at hyfforddiant perthnasol ac o ansawdd da yn gyson, ac yn cydnabod bod diwylliant '*tyfu eich un eich hun'* cryf sy'n cefnogi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chamu ymlaen yn eich gyrfa. Mae hyn yn cefnogi gweithlu mwy sefydlog sydd, yn ei dro, yn helpu pobl i elwa ar barhad, hyder a chysondeb yn y cymorth y maent yn ei gael.

4.8 Mae gofalwyr di-dâl yn cael cyfleoedd clir i rannu eu profiadau a dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau drwy fforymau a rhwydweithiau ymgysylltu sefydledig ar gyfer gofalwyr. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ofalwyr di-dâl godi materion, llywio datblygiad gwasanaethau a chyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau, ac mae comisiynwyr ac uwch-arweinwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau gofalwyr. **Mae hyn yn adlewyrchu**

**ymarfer cadarnhaol drwy gydnabod gofalwyr di-dâl fel partneriaid mewn gofal, gan sicrhau bod y staff yn gwrando ar eu lleisiau a'u profiadau bywyd ac yn eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo llesiant a chanlyniadau gwell.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.9 Ni chaiff lleisiau pobl eu cofnodi'n gyson yn eu geiriau eu hunain mewn cofnodion gofal. Er y caiff safbwyntiau eu ceisio ar y cyfan, mae asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth ac adolygiadau yn aml yn cynnwys iaith broffesiynol, gan leihau'r sicrwydd bod pobl yn cael eu cynnwys yn gyfartal yn gyson wrth wneud penderfyniadau. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn cofnodi'n gyson yr hyn sy'n bwysig i bobl ac yn cefnogi ymarfer wedi'i bersonoli sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.**

4.10 Er bod gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi fel arfer, nid ydynt yn cael cymorth amserol ac effeithiol yn gyson. Mae asesiadau gofalwyr di-dâl a chymorth dilynol yn amrywiol ac mae oedi wrth ddarparu gofal a chymorth yn cyfrannu at fwy o straen a risg y bydd anghenion unigol yn gwaethygu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael asesiad a chymorth amserol yn unol â'i ddyletswyddau statudol a rhaid ystyried asesiadau ar y cyd lle bo'r rhain yn briodol.**

4.11 Er bod enghreifftiau o arferion da, nid yw'r cynnig o eiriolaeth i bobl yn cael ei ystyried yn gyson na'i gofnodi'n glir ym mhob achos. Nid oes sicrwydd digonol bod eiriolaeth yn cael ei hystyried yn rheolaidd ar adegau allweddol yng ngofal a chymorth pobl, gan gofnodi rhesymeg benodol lle nad yw'n cael ei darparu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd eiriolaeth a lle y bo'n briodol, y caiff eiriolaeth ffurfiol ei chynnig, ei chomisiynu a'i darparu.**

4.12 Nid oes tystiolaeth gyson o'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ymarferol. Er bod dewis iaith yn cael ei gofnodi fel arfer, nid yw cofnodion gofal yn dangos yn gyson fod pobl yn cael cynnig asesiad, gwaith cynllunio neu adolygiad yn rhagweithiol yn Gymraeg. Mae hyn yn peri risg na fydd pobl yn ymwybodol o'u hawl i gael cymorth yn Gymraeg, lle gallai hyn fod yn well ganddynt. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r ffordd y mae'n darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, fel bod pobl yn cael cynnig gwasanaethau yn rhagweithiol yn Gymraeg a bod tystiolaeth amlwg o hyn yn y cofnodion.**

4.13 Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig dewis a hyblygrwydd ystyrlon i rai pobl. Maent yn galluogi trefniadau wedi'u personoli, parhad cydberthnasau yr ymddiriedir ynddynt a mwy o reolaeth dros y ffordd y caiff cymorth ei ddarparu.

Fodd bynnag, nid yw taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried fel mater o drefn na'u hailystyried wrth ailasesu neu adolygu. Mewn rhai achosion, mae cofnodion cyfyngedig o ran y rhesymeg yn lleihau'r sicrwydd bod opsiynau i gynyddu dewis a rheolaeth wedi'u hystyried yn llawn. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hystyried a'u cynnig fel ffordd o ddiwallu anghenion cymwys, gan gofnodi rhesymeg glir pan na chânt eu defnyddio.**

4.14 Mae gwasanaethau i oedolion yn gweithredu mewn cyd-destun lle ceir pwysau parhaus ar y gweithlu a'r system, ochr yn ochr â gwaith ailstrwythuro sy'n mynd rhagddo a rhaglen trawsnewid gwasanaethau uchelgeisiol. Wrth i wasanaethau ail-alinio strwythurau, rolau a ffyrdd o weithio, mae rhywfaint o amrywiad yn ansawdd y cofnodion, amseroldeb adolygiadau a gweithgarwch dilynol, a pha mor gyson y caiff ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ei roi ar waith. Dywed rhai ymarferwyr fod ansicrwydd yn ystod cyfnodau o drawsnewid, gan gynnwys ynghylch strwythurau, blaenoriaethau a disgwyliadau yn y dyfodol, sy'n cyfrannu at bryder a llai o hyder. **Dylai'r arweinwyr barhau i gefnogi'r staff drwy newid wedi'i gynllunio a blaenoriaethu dulliau cyfathrebu clir a chyson er mwyn ymgorffori disgwyliadau cyffredin o ran ymarfer ym mhob tîm, fel bod dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn cael eu rhoi ar waith yn fwy cyfartal, a bod pobl yn cael canlyniadau cyson ni waeth ble maent yn byw na pha dîm sy'n eu cefnogi.**

4.15 Mae trefniadau sicrhau ansawdd ac archwilio ar waith ac maent yn adlewyrchu ymrwymiad yr awdurdod lleol i ddysgu a gwella. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu â chanfyddiadau ac yn dangos eu bod yn agored i her, gan gefnogi cyfleoedd i fyfyrio a gwella lle nodir gwersi i'w dysgu. Fodd bynnag, mae anghysondeb wrth roi hyn ar waith ac mae prosesau dadansoddi beirniadol yn gyfyngedig. Mae hyn yn cyfyngu ar y sicrwydd y dylai'r prosesau hyn ei gynnig. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau dyfnder a chysondeb y trefniadau archwilio, a'r ffordd y cânt eu goruchwylio, er mwyn gwella'r hyder bod gweithgarwch sicrhau ansawdd yn cefnogi dysgu a gwelliant ar draws y gwasanaeth yn effeithiol.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.16 Mae'r trefniadau drws ffrynt a'r prosesau brysbennu yn cefnogi camau i flaenoriaethu pobl ag anghenion brys. Lle nodir risg, mae ymatebion yn canolbwyntio ar ddiogelwch a diogelu pobl, sy'n rhoi sicrwydd bod pryderon uniongyrchol yn cael eu cydnabod a'u rheoli.

4.17 Mae'r ymarferwyr yn dangos ethos ataliol yn y ffordd y maent yn asesu ac yn cynllunio gofal. Lle mae capasiti'r gweithlu a gwasanaethau ar gael, mae

ymarfer yn canolbwyntio ar gynnal annibyniaeth ac atal anghenion rhag gwaethygu, gyda chefnogaeth barn broffesiynol a goruchwyliaeth y tîm rheoli. Ceir enghreifftiau lle mae ymyrryd yn gynnar yn cefnogi pobl i aros yn ddiogel ac yn iach gydag ymatebion amserol a chydgysylltiedig.

4.18 Mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau gweithredol i gryfhau gwasanaethau gofal cartref fel rhan o'i ddull ehangach o reoli galw a gwella mynediad at gymorth. Mae'r ffordd y caiff gwasanaethau eu comisiynu a'u monitro yn cefnogi trefniadau gwaith adeiladol gyda darparwyr ac yn helpu i wneud gwasanaethau yn fwy dibynadwy. Er bod prinder staff a'r pwysau ar gapasiti yn parhau i effeithio ar brofiad rhai pobl, mae'r dull hwn yn cefnogi'r awdurdod lleol i wneud cynnydd o ran gwella mynediad at ofal cartref a lleihau amseroedd aros.

4.19 Mae adborth gan ymarferwyr yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i ymyrryd yn gynnar ac atal. Disgrifia'r ymarferwyr ethos ataliol a rennir a bwriad clir i gefnogi pobl yn gynharach, hyd yn oed pan fydd cyfyngiadau yn y system yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni.

**Meysydd i'w Gwella**

4.20 Mae rhai pobl yn wynebu oedi cyn cael asesiad, cyngor neu gymorth, ac nid yw rhai cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n gyson ac yn amserol. Os nad yw adolygiadau'n amserol, mae risg na chaiff anghenion newidiol pobl eu monitro'n briodol gan arwain at ddarparu gofal a chymorth amhriodol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau gyda'i ymdrechion i leihau oedi wrth asesu a sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn unol ag amserlenni statudol er mwyn monitro newidiadau a lliniaru'r risg hon.**

4.21 Er bod risgiau'n cael eu nodi'n aml, nid yw cynlluniau wrth gefn yn glir nac yn barod i'w gweithredu yn gyson, sy'n cyfyngu ar y sicrwydd y gellir cynnal gofal pan fydd amgylchiadau'n newid. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn glir er mwyn lliniaru risgiau i'r broses o ddarparu gofal a chymorth amserol a phriodol.**

4.22 Mae argaeledd cyfyngedig gofal seibiant, ynghyd â darpariaeth ddydd a chymunedol, yn lleihau gallu'r awdurdod lleol i atal anghenion pobl rhag gwaethygu, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae bylchau mewn gwasanaethau a gofynion cystadleuol yn golygu nad yw rhai pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ddigon cynnar, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac adolygu'n rhagweithiol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y ffordd y mae'n ailstrwythuro ei wasanaethau yn darparu dulliau ataliol sy'n gwbl weithredol ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, fel bod pobl yn cael eu cefnogi'n gynharach a bod eu hanghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu.**

4.23 Mae gan yr uwch-arweinwyr ddealltwriaeth glir o fylchau yn narpariaeth cartrefi gofal nyrsio lleol a'r effaith ar ofal pobl, gan gynnwys oedi wrth asesu a rhyddhau pobl ag anghenion mwy cymhleth o'r ysbyty. Mae'r cynnydd cynlluniedig mewn capasiti mewnol drwy gartrefi sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal a gwasanaeth nyrsio yn gadarnhaol, ond bydd cyflawni'r cynnydd hwn yn amserol yn bwysig i leihau'r pwysau hyn. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i gryfhau a datblygu ei weithgarwch comisiynu a llywio'r farchnad ochr yn ochr â'r gwaith hwn, er mwyn sicrhau y gall pobl gael gofal nyrsio priodol mewn modd amserol, yn agosach at adref lle bo modd, ac i leihau oedi neu risg y gellir ei hosgoi.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

4.24 Eir i'r afael â'r rhan fwyaf o ymholiadau diogelu o fewn yr amserlenni statudol, ac mae enghreifftiau o brosesau cydgysylltu amlasiantaethol effeithiol a mesurau diogelu sy'n canolbwyntio ar hawliau sy'n cefnogi diogelwch a llesiant pobl yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.25 Mae'r arweinyddiaeth ar ddiogelu a'r tîm diogelu arbenigol yn darparu arbenigedd a goruchwyliaeth gyfreithiol gref, gan gefnogi ymatebion diogelu amserol, cymesur ac sy'n canolbwyntio ar hawliau.

4.26 Mae cyfarfodydd sgrinio diogelu dyddiol o fewn y tîm diogelu dynodedig yn darparu goruchwyliaeth gyson ar lefel system o risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau amserol, camau uwchgyfeirio priodol ac ymatebion cymesur, gan gyfrannu at gamau diogelu cynnar a chefnogi diogelwch a llesiant pobl yn unol â Deddf 2014.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.27 Er bod enghreifftiau o nodi risg yn amserol a rhoi arferion diogelu ar waith, nid yw arferion diogelu yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y gwasanaethau i oedolion. Mewn ychydig o achosion, nid yw penderfyniadau a phrosesau diogelu yn cael eu datblygu na'u cofnodi mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd llawn bod camau priodol wedi cael eu cymryd ar yr adeg y nodwyd y risg. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau dealltwriaeth, prosesau gwneud penderfyniadau a goruchwyliaeth mewn perthynas â diogelu ym mhob rhan o'r system er mwyn sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu cydnabod, eu cofnodi a'u datblygu'n gyson ar draws y gwasanaeth.**

4.28 Mae rhai enghreifftiau o arferion da o ran cofnodi asesiadau galluedd a gwneud penderfyniadau er lles pennaf. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gyson o hyn,

yn enwedig mewn perthynas â phobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau allweddol am eu gofal a'u cymorth o bosibl. Mae hyn yn cyfyngu ar eglurder a hyder yn y rhesymeg dros benderfyniadau allweddol mewn rhai achosion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau o alluedd meddyliol a phenderfyniadau er lles pennaf yn cael eu cymhwyso'n gyson, eu bod yn ymwneud â phenderfyniad penodol ac yn cael eu cofnodi'n glir yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.**

4.29 Yn debyg i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae gan yr awdurdod lleol ôl-groniad o asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, ynghyd â chyfyngiadau parhaus o ran capasiti aseswyr lles pennaf. Mae trefniadau ar waith i gefnogi camau i wella a goruchwylio gweithgarwch sy'n ymwneud â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, gan gynnwys rheoli'r rhestr aros yn weithredol, blaenoriaethu a chamau i leihau amseroedd aros hir. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn addas at y diben, yn ymatebol i risg a bod digon o adnoddau ar eu cyfer.**

**Partneriaeth**

**<u>Cryfderau</u>**

4.30 Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar lefel strategol ac ar lefel diogelu. Mae cydberthnasau rhwng yr awdurdod lleol, partneriaid diogelu a swyddogaethau comisiynu yn cefnogi ymatebion cydgysylltiedig pan fydd risg yn cynyddu. Lle cyrhaeddir trothwyon diogelu oedolion, mae asiantaethau'n cydweithio i rannu gwybodaeth, gwneud penderfyniadau cymesur ac ymdrin ag ymholiadau diogelu, gan gyfrannu at ddiogelwch, hawliau a llesiant pobl yn unol â'r Ddeddf a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.31 Mae trefniadau comisiynu a monitro contractau yn cefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth â darparwyr. Dywed rhanddeiliaid fod y swyddogaethau hyn yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar atebion, a bod tystiolaeth o ddatrys problemau ar y cyd pan fydd gwasanaethau dan bwysau.

4.32 Atgyfnerthir yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth drwy fforymau allweddol fel *Engage to change* a *Grŵp Llywio'r Gofalwyr*, gyda thystiolaeth bellach o gydweithio â Llais i gefnogi ymdrechion i lywio gwasanaethau yn seiliedig ar adborth pobl. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol, gan ddarparu cyfleoedd strwythuredig i bobl a gofalwyr di-dâl ddylanwadu ar flaenoriaethau a sicrhau bod y gwersi a ddysgir a gwelliannau yn cael eu llywio gan brofiad bywyd.**

4.33 Mae gwaith partneriaeth cydgysylltiedig rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn cefnogi canlyniadau llesiant pobl. Mae trefniadau ar y cyd, gan

gynnwys cyfarfodydd amlasiantaethol am ryddhau cleifion o'r ysbyty, mewnbwn pwrpasol gan weithwyr cymdeithasol mewn ysbytai, dangosfyrddau perfformiad a rennir a datblygu dulliau aseswyr dibynadwy a broceriaeth ar y cyd, yn cyfrannu at wneud penderfyniadau mwy amserol a chydgysylltiedig ac yn cefnogi parhad gofal. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol sy'n cefnogi pobl i gael y cymorth cywir mewn modd amserol.**

4.34 Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinwyr a phartneriaid yn rhannu dealltwriaeth o flaenoriaethau gwella. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn cefnogi goruchwyliaeth ar y cyd o bwysau ar y system ac yn cyfrannu at drafodaeth gydweithredol am ddatblygiad gwasanaethau. Mae pwysau o ran adnoddau, natur wledig y sir a chyfyngiadau'r farchnad yn parhau i roi straen ar gamau cyflawni partneriaeth ac yn cyfrannu at amrywioldeb o ran cyfathrebu ac amseroldeb. Cydnabyddir yr heriau hyn ac eir i'r afael â nhw fel cyfrifoldeb a rennir rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid, gan gefnogi prosesau datrys problemau cydweithredol a pherchnogaeth ar y cyd. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol sy'n dangos gwaith partneriaeth effeithiol.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.35 Mae profiadau pobl o weithio mewn partneriaeth yn anghyson. Er bod cydberthnasau strategol rhwng sefydliadau yn effeithiol, nid yw'r trefniadau hyn yn trosi'n ymarfer cydlynol a chydgysylltiedig ar lefel weithredol yn gyson. O ganlyniad, mae rhai pobl a gofalwyr di-dâl yn nodi bod yn rhaid iddynt ailadrodd eu hamgylchiadau i nifer o weithwyr proffesiynol, sy'n lleihau eu hymdeimlad o reolaeth, eu hyder mewn trefniadau partneriaeth, a'u llesiant cyffredinol. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau sicrwydd, prosesau rhannu gwybodaeth a pharhad ymhlith ei bartneriaid er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth cydlynol a chydgysylltiedig yn gyson.**

4.36 Mewn rhai ardaloedd gall argaeledd gwasanaethau gyfyngu ar effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth. Mae digonolrwydd cyfyngedig gwasanaethau yn cyfyngu ar allu partneriaid i ymateb yn hyblyg ac mewn ffordd gydlynol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan gynyddu'r risg o oedi ac y bydd anghenion yn gwaethygu, a chyfyngu ar ddewis. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phartneriaid i gryfhau prosesau cynllunio a chydlynu lle mae argaeledd gwasanaethau yn cyfyngu ar ymatebion amserol ac ataliol.**

4.37 Mae adborth gan ymarferwyr yn dangos pryder y gall newidiadau i'r system yn y dyfodol leihau gweledededd gwybodaeth a gwneud cydlynu a gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol yn fwy heriol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fonitro hyn yn agos a goruchwylio ansawdd data, safonau cofnodi a mynediad at systemau yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn gadarn, er mwyn sicrhau bod risgiau'n parhau i fod yn weladwy ac y cânt eu rheoli'n effeithiol.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 24 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 20 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â thri pherson sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, â 31 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, pennaeth/penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol).
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, â 15 o ymarferwyr ac arweinwyr o sefydliadau partner.
- Gwnaethom arsylwi ar fforymau, lleoliadau gofal, cyfarfodydd dyddiol ac ymwelwyd â sefydliadau partner.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Cwblhaodd 77 o ymarferwyr, 72 o bobl a 17 o bartneriaid arolygon arolygu AGC.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Gwnaed y cynnig rhagweithiol ac fe'i derbyniwyd gan bobl a oedd yn dymuno ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |